**ATODIAD**

**SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU**
**CYDNERTHEDD ARIANNOL CYNGHORAU YNG NGHYMRU**

| Cyf | Argymhellion | Cytuno | Ymateb/ Gweithrediad | Swyddog Cyfrifol | Dyddiad Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Dylai cynghorau sicrhau bod eu cynllun corfforaethol: | | | | |
| | • wrth wraidd y broses o lywio cynlluniau gwasanaeth a strategaethau ategol eraill gan gynnwys y gweithlu, technoleg gwybodaeth a gwariant cyfalaf; | Cytuno a chredu fod cynllun corfforaethol Cyngor Gwynedd yn gyrru | | | |
| | • yn cynnal blaenolwg 3-5 mlynedd o leiaf a'i fod yn unol â'r cynllun ariannol tymor canolig a strategaethau ategol eraill; a | Cytuno yn rhannol | • Mae hwn yn un o hoff themâu SAC, ac yn debyg o gael sylw yn yr adolygiad corfforaethol yn 2016/17. Credwn fod y cynllun strategol eisoes yn unol â'r cynllun ariannol tymor canolig, ond rhoddir ystyriaeth bellach i hyn ar adolygiad nesaf y cynllun strategol | Tîm Rheoli Corfforaethol | Cynllun Strategol 2017/18 – 2019/20 |
| | • dylai nodi'n glir rôl ddymunol y cyngor mewn pum mlynedd – y model ar gyfer darparu gwasanaethau â blaenoriaeth a'r seilwaith a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni blaenoriaethau yn y dyfodol o fewn y cyllid sydd ar gael. | Cytuno yn rhannol | • Credwn fod cynllun pum mlynedd yn gyfnod heriol mewn adeg o newid cyflym, lle mae angen i'r Cyngor fod yn 'ystwyth', yn wyneb yr her ariannol, ayb. | Tîm Rheoli Corfforaethol | Cynllun Strategol 2017/18 – 2019/20 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2 | Dylai cynghorau sicrhau bod eu cynllun ariannol tymor canolig yn nodi'r prif risgiau ariannol a thybiaethau allweddol a dylai uwch swyddogion a chynghorwyr graffu arnynt a'u herio'n effeithiol cyn mabwysiadu'r cynllun. | Cytuno | Rydym ni eisoes yn gwneud hyn i raddau helaeth yn barod yn y seminarau cyllidebu blynyddol, ond efallai bod lle i gofnodi'r risgiau penodol yma yn gliriach yn yr adroddiad i'r Cyngor ar y strategaeth ariannol.  Gellid ychwanegu rhan yn ymwneud a risg, gan nodi'r prif risgiau posibl, a beth fyddai ein hymateb i hynny, sef cynyddu lefel y toriadau y byddai eu hangen.<br><br>Tra gallwn ystyried gwella'r adroddiad drwy roddi cymal yn adnabod y risgiau mwyaf, e.e. beth pe byddai codiad tâl yn 2% yn hytrach na 1%, mae adroddiad SAC ei hunain yn gamarweiniol wrth hepgor unrhyw grybwylliad o'r cyd-destun hanfodol o drefn gyllido awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru, a'i diffyg arwyddion am lefel ariannu yn y dyfodol (yn wahanol i Lywodraeth yr Alban), a'r ansicrwydd cenedlaethol ynglŷn ag ad-drefnu'r cynghorau. | Pennaeth Cyllid | Chwefror 2016 |
| 3 | Mae angen i gynghorau sicrhau bod diffygion ariannol yn cael eu rhagamcanu'n gywir a'u cysoni'n llawn â chynlluniau arbed manwl ar gyfer pob blwyddyn o oes y cynllun ariannol tymor canolig. | Cytuno | Rydym ni eisoes yn gwneud hyn. | Pennaeth Cyllid a'r Prif Weithredwr | Parhaus |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | Dylai cynghorau gynnal adolygiad rheolaidd o ddigonolrwydd y trefniadau sicrwydd ariannol sy'n sail i gyflawni cynlluniau arbed blynyddol, gan gynnwys lefel y gwaith craffu a herio a gynigir gan gynghorwyr. | Cytuno | Mae Cyngor Gwynedd wedi sefydlu trefn newydd i Aelodau Cabinet perthnasol adolygu cyrhaeddiad cynlluniau arbedion, a diau fydd y Pwyllgor Archwilio hefyd am wirio trefniadau i ddelio â phrif risgiau'r Cyngor, a chraffu'r materion ariannol sylweddol yma. | Pennaeth Cyllid | Chwarter 3 o 2015/16. |
| 5 | Dylai cynghorau sicrhau bod ganddynt strategaeth cronfeydd wrth gefn gynhwysfawr sy'n amlinellu diben penodol cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy cronedig fel rhan o'u Cynllun Ariannol Tymor Canolig. | Cytuno yn rhannol | Gweler penderfyniad Cabinet 23/06/2015 ynghyd ag adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio 30/06/2015 ar gyfer y polisi ar gronfeydd, sydd bellach wedi'i ffurfioli, ynghyd ag adolygiad o gronfeydd penodol.<br><br>Gweler y rhan berthnasol o'r adroddiad i'r Cyngor llawn 05/03/2015 ar gyfer ystyriaeth o ddefnydd o falansau cyffredinol, ynghyd ag atodiad yn crynhoi cronfeydd y Cyngor.<br><br>Mater cymhleth a manwl fyddai cael un 'strategaeth' ar gyfer yr holl gronfeydd amrywiol, ond mae'n amlwg fod canlyniad yr adolygiad diweddar yn cefnogi'r cynllun ariannol tymor canolig. | Pennaeth Cyllid | Eisoes yn weithredol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 6 | Dylai cynghorau ddatblygu polisïau cwbl gorfforaethol ar gynhyrchu incwm. | Cytuno yn rhannol | Ddaru'r Pennaeth Cyllid arwain adolygiad cenedlaethol ar gynhyrchu incwm ychydig flynyddoedd yn ôl, ac ar wahân i ffioedd parcio, prin oedd y cyfleoedd yn Cyngor Gwynedd.<br><br>Ers hynny, gweithredwyd mewn sawl maes i gyflawni arbedion corfforaethol, ac mae'r adrannau wedi cynnwys cynlluniau codi incwm yn eu cynlluniau arbedion effeithlonrwydd 2014/15 - 2017/18.<br><br>Er hynny, bydd yr Arweinydd Rhaglen Arbedion a'r Pennaeth Cyllid yn chwilio am fwy o gyfleoedd i gynhyrchu incwm fel rhan o'u gwaith i uchafu arbedion effeithlonrwydd, a bwriedir gweithio gyda SAC er mwyn ceisio darganfod y cyfleoedd hynny. | Pennaeth Cyllid | 2015/16 |
| 7 | Dylai cynghorau:<br><br>• atgyfnerthu trefniadau pennu a monitro cyllidebau er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol; ac<br><br>• adolygu cwmpas ac effeithiolrwydd eu systemau a'u rheolaethau ariannol mewnol ac allanol er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn rhoi rhybudd cynnar am wendidau mewn systemau allweddol. | Ansicr | Rydym, i raddau, yn cyflawni hyn eisoes.  Bwriedir trafod manylion hyn ymhellach gyda'r archwilwyr allanol. | Pennaeth Cyllid a Thîm Rheoli Cyllid | 2015/16 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 8 | Rhaid i gynghorau adolygu eu timau cyllid a sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau a’r sgiliau cywir i fodloni gofynion yn y dyfodol. | Cytuno yn rhannol | Hyn yn digwydd rŵan fel rhan o’r gyfundrefn arbedion / toriadau, gan geisio sicrhau nad yw’r toriadau / arbedion yn effeithio ar ein gallu i helpu gwasanaethau’r Cyngor.<br><br>Bydd yn anodd “sicrhau digon o adnoddau” yn y cyd-destun heriol, ond rydym yn ceisio, cystal â phosib, i gael y cydbwysedd iawn mewn lle. Ni ellir osgoi elfen o risg wrth weithredu newidiadau ac wrth ymdrechu i gefnogi gwasanaethau fydd yn trawsffurfio. | Pennaeth Cyllid | Parhaus |
| 9. | Mae angen i swyddogion cynghorau sicrhau bod gan gynghorwyr y wybodaeth a’r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni gwaith llywodraethu a herio effeithiol drwy ymestyn cyfleoedd hyfforddi a llunio gwybodaeth reoli o ansawdd uchel. | Cytuno | Rydym i raddau yn cyflawni hyn eisoes, ond bwriedir trafod manylion hyn ymhellach gyda’r archwilwyr allanol. | Pennaeth Cyllid (yng nghyswllt cyllidebu) | Cylch cyllidebu 2016/17 |